

PAGE 75

Minutes of the **remote Full Council** held via Zoom video conferencing on, **Monday 15 March 2021** at 7p.m.

PRESENT: - The Deputy Mayor Councillor Owen Hurcum (Chair)
Councillors : John Wynn Jones, Elin Walker Jones, Medwyn Hughes, Kieran Jones, Mair Rowlands, Dylan Fernley, Enid Parry, John Martin, Derek Hainge, Nigel Pickavance, Luke Tugwell, Gareth Roberts, Gwynant Roberts, Colin King, George Turner, Huw Wyn Jones (joined the meeting at 7-13pm)

Officers:- Iwan Williams, City Director, Martin Hanks, Acting Town Clerk
Gwynfor Owen (Translator)

375/19 APOLOGIES

Apologies for absence were received from His Worship The Mayor Councillor John Wyn Williams and Councillor Les Day.

376/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None.

377/19 PUBLIC PARTICIPATION

None.

378/19 CITY DIRECTOR'S UPDATE

- a) Gwynedd Council 10% Parking Scheme
RESOLVED: The Council decided against joining the Scheme. The vote was unanimous.
- b) Adoption of Online Meetings Guidance
RESOLVED: The Council adopted the Guidance. The vote was unanimous.
RESOLVED: The Deputy Mayor asked that a discussion on how and when the Council returns to physical meetings in Penrhyn Hall, that the Hall is compliant with Covid-19 rules, and the possibility of hybrid meetings i.e. some members remain online, some meet physically in the Hall, is an agenda item for the next Council meeting on 19th April
Information updates
- c) Bangor Pier: The City Director informed members that a new Heritage Lottery Fund bid is being developed. Regarding the 125th year anniversary of the Pier, discussions continue on a programme of celebrations to acknowledge the date, taking into account Covid-19 restrictions
- d) Bangor BID: The City Director informed members that the Bangor BID ballot was approved on 12th March
- e) Use of 'Bangor South' in Covid-19 data: The City Director informed members that this geographical region is used by Public Health Wales and the Welsh Government as one of the 410 Middle Layer Super Output Areas (MSOA) across Wales. 'Bangor South' includes the wards of Glyder, Dewi and Hendre, and also the lower half of Marchog ward
- f) St David's Day celebrations: The City Director informed members about the virtual programme of celebrations between 24th February and 5th March. The City Council organised the 'Bangors of the World' event, which was successful and will hopefully lead to a e-twinning partnership with Bangors in Wisconsin, Pennsylvania and Northern Ireland
- g) Sakura Trees Project: The City Director informed members that the majority of the trees are now planted in Ashley Jones Fields, with others located in Maesgeirchen, Penrhyn Castle and Bangor University. The Project has been well received on social media, and an Information Board is planned for Ashley Jones Fields
- h) Gwynedd Council: grass cutting, green spaces: The City Director informed members about the various options available to the Council regarding grass cutting in Bangor

RESOLVED: The Council gave the Finance Committee powers to consider cost options on 29th March

- i) New Council Structure paper: The City Director informed members that a paper is being worked on for the Council, and will be presented at the next meeting on 19th April

RESOLVED: The Council approved the information received. The vote was unanimous

379/19 INVOICES FOR PAYMENT

The City Director informed the Council that the invoices had been approved for payment by the Mayor and Deputy Mayor as detailed on the schedule totalling £8042-72.

380/19 SIGNING OF DOCUMENTS

None.

The Meeting closed at 7-58pm

TUDALEN 75

Cofnodion **Cyfarfod Llawn y Cyngor o bell** a gynhaliwyd trwy fideo-gynadledda Zoom, **nos Lun 15 Mawrth 2021** am 7p.m.

YN BRESENNOL: - y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Owen Hurcum (yn y Gadair)

Cynghorwyr : John Wynn Jones, Elin Walker Jones, Medwyn Hughes, Kieran Jones, Mair Rowlands, Dylan Fernley, Enid Parry, John Martin, Derek Hainge, Nigel Pickavance, Luke Tugwell, Gareth Roberts, Gwynant Roberts, Colin King, George Turner, Huw Wyn Jones (ymunodd â'r cyfarfod am 7-13pm)

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Martin Hanks, Clerc y Dref Dros Dro

Gwynfor Owen (Cyfieithydd)

375/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd John Wyn Williams a'r Cynghorydd Les Day.

376/19 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

377/19 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

378/19 DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

- a) Cynllun Parcio 10% Cyngor Gwynedd

PENDERFYNWYD: Penderfynodd y Cyngor yn erbyn ymuno â'r Cynllun. Roedd y bleidlais yn unfrydol.

- b) Mabwysiadu Canllawiau i Gyfarfodydd ar-lein.

PENDERFYNWYD: Mabwysiadwyd y Canllawiau gan y Cyngor. Roedd y bleidlais yn unfrydol.

PENDERFYNWYD: Gofynnodd y Dirprwy Faer a ellid cael trafodaeth am sut a phryd bydd y Cyngor yn dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Neuadd y Penrhyn, a yw'r Neuadd yn cydymffurfio â rheolau Covid-19, a'r posibilrwydd o gyfarfodydd hybrid, h.y. rhai aelodau'n aros ar-lein, rhai yn cwrdd yn gorfforol yn y Neuadd. Bydd hon yn eitem ar yr agenda ar gyfarfod nesaf y Cyngor ar 19 Ebrill.

Diweddariadau er gwybodaeth

- c) Pier Bangor: Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig wrth yr aelodau fod bid newydd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn cael ei ddatblygu. O ran pen-blwydd y Pier yn 125, mae trafodaethau'n parhau am raglen o ddathliadau i nodi'r dyddiad, a gan ystyried cyfyngiadau Covid-19.

- d) AGB Bangor: Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig yr aelodau fod pleidlais AGB Bangor wedi'i chymeradwyo ar 12 Mawrth.

- e) Y defnydd o 'De Bangor' yn nata Covid-19: Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig wrth yr aelodau fod y rhanbarth daearyddol hwn yn cael ei ddefnyddio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru fel un o 410 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) ar draws Cymru. Mae 'De Bangor' yn cynnwys wardiau Glyder, Dewi a Hendre, a hefyd hanner isaf ward Marchog.

- f) Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi: Soniodd y Cyfarwyddwr Dinesig wrth yr aelodau am y rhaglen rithiol o ddathliadau rhwng 24 Chwefror a 5 Mawrth. Roedd Cyngor y Ddinas wedi trefnu digwyddiad 'Bangors y Byd', a oedd yn llwyddiannus ac a fydd, gobeithio, yn arwain at bartneriaeth e-gefeillio â Bangorau yn Wisconsin, Pennsylvania a Gogledd Iwerddon

- g) Prosiect Coed Sakura: Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig yr aelodau fod y rhan fwyaf o'r coed bellach wedi'u plannu yng Nghaeau Ashley Jones, gydag eraill wedi'u lleoli ym Maesgeirchen, Castell Penrhyn a Phrifysgol Bangor. Cafodd y Prosiect groeso ar y cyfryngau cymdeithasol, a bwriedir rhoi Bwrdd Gwybodaeth yng Nghaeau Ashley Jones
- h) Cyngor Gwynedd: torri'r gwair, mannau gwyrdd. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig yr aelodau am y gwahanol opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor o ran torri'r gwair ym Mangor.
PENDERFYNWYD: Rhoddodd y Cyngor bwerau i'r Pwyllgor Cyllid ystyried opsiynau cost ar 29 Mawrth.
- i) Papur ar Strwythur Newydd i'r Cyngor: Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig yr aelodau fod papur ar y gweill i'r Cyngor, ac y bydd yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar 19 Ebrill
PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cyngor yr wybodaeth a dderbyniwyd. Roedd y bleidlais yn unfrydol.

379/19 ANFONEBAU I'W TALU

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig y Cyngor fod yr anfonebau wedi'u cymeradwyo i'w talu gan y Maer a'r Dirprwy Faer fel ag y manylwyd arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £8042-72.

380/19 LLOFNODI DOGFENNAU

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7-58pm